Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ddydd Mercher 2 Mehefin 2004 am 7.00pm

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Maer), Cyng R. Bellamy (Dirprwy Faer/Cadeirydd), Cyng K, Day, Cyng C. Jenkins

Eraill: R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref), Mrs S. Price (Clerc Newydd y Dref)

6114: Ymddiheuriadau: Ni chafwyd rhai

6115: Croesawodd y Cadeirydd Glerc newydd y Dref, Mrs Sandra Price i'r cyfarfod, a'i chyflwyno i aelodau.

6116: Anfonebau i'w talu.

C. C. C. Rhentu'r Caban tan Fehefin 04	£30.42

Cadarnhawyd yr anfenebau i'w talu gan y Cyng Jones ac eilwyd gan y Cyng Day.

6117: Cyfrifon wedi'u talu

Darganfyddodd y Clerc nad oedd Ambiwlans Sant Ioan wedi cael y £50.00 am eu cymorth a'u gwaith arbennig yn yr arddangosfa tân gwyllt fis Tachwedd 2003. Gwnaeth y Clerc y taliad ac ysgrifennodd lythyr yn ymddiheuro am y camgymeriad.
Cofnod 6052: Dylai'r cyfanswm sy'n cael ei dalu i BT fod yn £87.46 nid £87.00

Viking Direct 331335 VAT/Cludiant heb ei dalu, gwall	£9.60
Rhodd heb ei dalu i Ambiwlans Sant Ioan ers 2003	£ 50.00
Capel Newydd, rhentu'r Festri ar gyfer cyflwyniad yr Arolwg Treftadaeth	£20.00

Cadarnhawyd yr anfoenbau a dalwyd gan y Cyng Jones ac eilwyd gan y Cyng Jenkins.

6118: Adran 137.

Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo a'r Cylch	£400.00 gyda llythyr amgaeëdig yn galw am adborth ar ddefnydd yr arian hwn ac

	unrhyw geisiadau am arian yn y dyfodol i ddod gyda chofnodion Incwm a Gwariant.
Cegin Sgiliau Bywyd Tregib	£400.00 Teimlodd y Cyngor y dylai fod yn hael a llongyfarchodd Tregib ar ei bolisi cynhwysiant a chyfle cyfartal gwych.
Ambiwlans Awyr Cymru	£150.00
Ymddiriedolaeth Coetir	£300.00 i gael ei gynnig fel addewid y Cyngor. Nododd y Cyngor gyfarfod dylunio am 7.00pm ar 30 Mehefin. Mae gan y prosiect hwn ychydig o bwysigrwydd ar y Datblygiad Llwybr Treftadaeth arfaethedig.
Shelter	£50.00

6119: Cyllideb a Chronfeydd wrth gefn wedi ei glustnodi ar gyfer 2004-2005

Cyllideb 2004-5

	Cyllideb 2004-5 yn cynnwys cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi
INCWM	
Archebiant	33,690.05
Incwm Rhent y Neuadd Sirol	11,167.00
Amrywiol Incwm	
Llog Banc	
TAW	7767.13
Grantiau	
Cyfanswm Incwm	**52,624.18**
Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi	**31,467.10**
Cyfanswm i'w wario:	**84,091.28**
GWARIANT	
Costau Gweinyddu	
Cyflogau	8,500.00
Costau'r Maer	3,300.00
Costau Cyffredinol	1,000.00
Ffioedd Archwiliad	250.00
TAW	
Yswiriant	3,000.00
Costau Swyddfa	1,000.00
Costau Cyfieithu	500.00
Cynnal Gwefan	300.00
Costau Adeiladau	
Costau'r Neuadd Sirol	5,000.00
Llog ac ad dalu benthyciad	7,500.00

Dyletswyddau Statudol	
Taliadau Adran 137	3,500.00
Goleuadau Stryd	600.00
Gwariant Arall	
Goleuadau Nadolig	3,000.00
Cynnal Llwybrau	250.00
Llandeilo yn ei Blodau	500.00
Torri gwair a goleuo'r Eglwys	1,500.00
Cmdeithas Gymunedol	500.00
Digwyddiadau:	
Cerdd a Blodau	2,000.00
Ceramica	1,000.00
G yl Fawr	3,000.00
Tân Gwyllt	3,000.00
Cinio Blynyddol	1,000.00
Prosiectau:	
G yl Goleuadau (yn cynnwys prynu goleuadau nadolig newydd)	4,000.00
Gerddi (prynu & thacluso cyffredinol)	4,000.00
CCTV	500.00
Meinciau Heol Cilgant	4,000.00
Neuadd Ddinesig – arolwg	1,200.00
Prosiectau (ein cyfraniad i arian cyfatebol)	9,000.00
Man dreuliau:	
Colli rhent y Neuadd Sirol	11,167.00
Cyfanswm Gwariant	**84,067.00**

6120: Torri Gwair yr Eglwys.

Nid oedd dim arian yn y flwyddyn flaenorol wedi cael ei dalu tuag at gynnal a chadw a thorri'r gwair ym mynwent yr eglwys.

Y Clerc i ysgrifennu llythyr i'r Eglwys yn cynnwys £500 fel cyfraniad i gynnal a chadw'r fynwent am y flwyddyn flaenorol ac i ofyn am wybodaeth am faint mae'r Eglwys yn ei wario ar gynnal a chadw'r fynwent yn flynyddol. Yn ogystal, fe fuasai'n ddefnyddiol pe buasai'r eglwys yn ysgrifennu yn gofyn am y cyfraniad blynyddol ar amser penodol bob blwyddyn.

6121: Cymdeithas Gymunedol

Gofynnodd y Cyng Day ar ran y Gymdeithas Gymunedol i'r Pwyllgor ystyried taliad o £1500.00 am yr Archwiliad o'r Neuadd Ddinesig. Mae'n holl-bwysig bod hyn yn cael ei wneud cyn i'r Gymdeithas Gymunedol ystyried bod yn gyfrifol am reoli'r neuadd. Mae'r Neuadd yn rhan eithriadol o bwysig o'r gymuned, ac mae mwyafrif llethol o ddigwyddiadau'r Dref yn digwydd yma.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cost yr arolwg yn cael ei dalu gan y Cyngor. Mae'r Gymuned am yrru cais ysgrifenedig ffurfiol yn gofyn am yr arian hwn i'r Cyngor a bydd y Cyngor yn neilltuo arian i dalu wrth dderbyn y cais a'r arolwg wedi ei gwblhau.

6122: Gohebiaeth.

- Llythyr gan Bartneriaeth Regan Norris ynglŷn ag astudiaeth Ymarferoldeb y Neuadd Sirol.

- Llythyr gan Radio Sir Gar.

Llythyr i'r aelodau i gyd er gwybodaeth.

Cysylltodd Mrs Horne sy'n gweithio gyda Sefydliad y Galon gyda'r Clerc yn gofyn am ffurfio Dyddiadur Tref, i helpu gyda chynllunio digwyddiadau. Rhoddodd y Clerc fanylion cyswllt y Cyng Day ynglŷn â chynllun Tywi i gyhoeddi dyddiadur tref.

Dyddiadur Tref i fod yn eitem ar agenda Cyfarfod y Cyngor Llawn Gorffennaf 2004.

Gofynnwyd i'r Clerc Newydd a'r Swyddog Technegol adael yr ystafell. Trafododd y Pwyllgor a'r clerc sy'n gadael faterion staffio.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm.